



Sgiliau i Weithwyr Proffesiynol sy'n Dysgu



Skills for Learning Professionals

**Safonau proffesiynol trosfwaol newydd
i athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn
y sector dysgu gydol oes yng Nghymru**

**New overarching professional
standards for teachers, tutors and
trainers in the lifelong learning sector
in Wales**

sgiliau
AR GYFER BUSNES

Rhan o rwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes o 25 o
Gynghorau Sgiliau Sector a arweinir gan gyflogwyr

skills
FOR BUSINESS

Part of the Skills for Business network
of 25 employer-led Sector Skills Councils

Rhagair gan y Gweinidog



Yn ‘Y Wlad sy’n Dysgu – Gweledigaeth ar Waith’ rydym wedi nodi ein gweledigaeth strategol ar gyfer addysg yng Nghymru. Ein bwriad yw gwella safonau addysgu a chyrraethiad ym mhob sefyllfa ddysgu. Ein nod yw datblygu a gwella hyblygrwydd cynlluniau oddi mewn i ffiniau sectorau ac ar eu traws. Byddwn hefyd yn archwilio dulliau o gyfochri datblygiadau, o ran sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar, a gyflwynwyd i athrawon mewn ysgolion, i staff addysgu y tu hwnt i’r sefyllfa ysgol.

Fel rhan o’r ymrwymiad hwn, gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i’r cyngor sgiliau sector Dysgu Gydol Oes y DU i ddatblygu safonau addysgu proffesiynol newydd. I athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr sy’n gweithio yn y sector dysgu gydol oes yng Nghymru mae’r safonau hyn. Maent yn diffinio’r hyn a ddisgwyliwn oddi wrth ein hathrawon, ein tiwtoriaid a’n hyfforddwyr mewn perthynas ag amrywiaeth o rolau a chyfrifoldebau.

Wrth ddatblygu’r safonau newydd hyn, mae Dysgu Gydol Oes y DU wedi ymgynghori’n eang. Cawsant eu tywys hefyd gan grŵp llywio a dynnwyd o randdeiliaid allweddol. Mae’r ymagwedd gydweithredol hon wedi sicrhau bod gennym gefnogaeth eang i’r safonau newydd hyn o bob rhan o’r sector dysgu gydol oes.

Rwyf o’r farn y bydd y safonau hyn yn cyfrannu’n fawr at wella ansawdd addysgu, hyfforddi a dysgu. Byddant hefyd yn helpu i fodloni dymuniad y sector ei hun o ddatblygu proffesiynoliaeth ei weithlu. Mae’n bleser gen i argymhell y safonau newydd hyn i chi. Edrychaf i’n holl bartneriaid yn y sector dysgu gydol oes yng Nghymru barhau i gydweithio i wneud y defnydd llawn o’r safonau addysgu newydd hyn.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'John Griffiths', written in a cursive style.

John Griffiths
Dirprwy Weinidog, Sgiliau

Ministerial Foreword



In *'The Learning Country – Vision into Action'* we have set out our strategic vision for education in Wales. It is our intention to drive up standards of teaching and attainment in all learning settings. We aim to develop and improve flexibility of deployment within and across sector boundaries. We will also explore ways of paralleling developments, on induction and early professional development that have been introduced for teachers in schools, for teaching staff beyond the school setting.

As part of this commitment the Welsh Assembly Government asked the sector skills council Lifelong Learning UK to develop new professional teaching standards. These standards are for teachers, tutors and trainers who work in the lifelong learning sector in Wales. They define what we expect of our teachers, tutors and trainers in a variety of roles and responsibilities.

In developing these new standards Lifelong Learning UK has consulted widely. They have also been guided by a steering group drawn from key stakeholders. This collaborative approach has ensured that we have broad support for these new standards from all parts of the lifelong learning sector.

I believe that these standards will contribute greatly to improving the quality of teaching, training and learning. They will also help to meet the sector's own wish to develop the professionalism of their workforce. I am pleased to recommend these new standards to you. I look to all our partners in the lifelong learning sector in Wales to continue to work together to make full use of these new teaching standards.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'John Griffiths'.

John Griffiths
Deputy Minister, Skills

Cyflwyniad

Y sector dysgu gydol oes a Dysgu Gydol Oes y DU (LLUK)

LLUK yw un o'r 25 o Gynghorau Sgiliau Sector (CSS) annibynnol, a arweinir gan gyflogwyr, a ariennir gan Yr Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector (SSDA) ac a drwyddedir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau, mewn ymgynghoriad â gweinidogion yng Nghymru. Ar y cyd, mae'r 25 CSS i'w cyfrif am y rhan fwyaf o'r Rhwydwaith Sgiliau i Fusnes (SfBn), y mae ei nodau allweddol yn cynnwys:

- lleihau bylchau a phrinderau o ran sgiliau
- gwella perfformiad o ran cynhyrchedd, busnes a gwasanaethau cyhoeddus
- cynyddu cyfleoedd i wella sgiliau a chynhyrchedd
- gwella cyflenwad y cyfleoedd i ddysgu, gan gynnwys prentisiaethau, AU (Addysg Uwch) a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC).

Mae'r sector dysgu gydol oes yng Nghymru yn tynnu ynghyd yr holl ddarpariaeth sy'n cyflwyno neu'n cefnogi dysgu a rheoli gwybodaeth i bobl ifanc sy'n hŷn na 14 ac oedolion.

Mae LLUK yn cynrychioli pum grŵp etholaethol allweddol:

- **dysgu a datblygu cymunedol (DDC)** – sy'n cynnwys dysgu yn y gymuned a gweithgaredd datblygu cymunedol, ac sy'n cynnwys addysg datblygu, gwaith ieuencid, dysgu teuluol a gweithio gyda rhieni
- **addysg bellach (AB)** – gan gynnwys pob coleg a sefydliad arbenigol AB
- **addysg uwch (AU)** – gan gynnwys prifysgolion a cholegau AU
- **llyfrgelloedd, archifau a gwasanaethau gwybodaeth (LIAGG)**
- **dysgu seiliedig ar waith (DSW)** – sy'n ymwneud â darpariaeth gan gwmnïau hyfforddi preifat

Addysg bellach (AB)

Mae'r System AB yng Nghymru yn tynnu ynghyd yr holl ddarpariaeth (y tu allan i ysgolion ond mewn partneriaeth â nhw) ar gyfer addysgu, dysgu a hyfforddi ôl-14. Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth a gynigir trwy golegau, darpariaeth gymunedol, dysgu yn y gwaith ac, yn gynyddol, llyfrgelloedd, archifau a gwasanaethau gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys dysgu anffurfiol, heb fod yn ffurfiol, a ffurfiol, sy'n cefnogi astudiaeth a wneir ym mhob agwedd arall o'r sector dysgu gydol oes, a'u rôl o ran mynediad at addysg a seilir yn gynyddol yn y gymuned a darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.

Diben y System AB yng Nghymru yw cefnogi dysgwyr, trwy gydol eu bywydau, i gael y wybodaeth a'r sgiliau i'w galluogi i:

- gael mynediad at gyflogaeth
- parhau mewn gwybodaeth a gwneud cynnydd o'i fewn
- bod yn ddefnyddwyr deallus
- bod yn unigolion, rhieni a dinasyddion deallus a chraff sy'n cyfranogi

Mae'r system AB yn cynnwys llwybrau dysgu 14 – 19, addysg i oedolion sy'n cael mynediad i gyflogaeth neu sy'n dychwelyd i gyflogaeth, hyfforddiant a datblygiad i bobl sydd mewn cyflogaeth neu'n datblygu mewn cyflogaeth, a dysgu ar gyfer twf personol. Mae hyn hefyd yn cwmpasu dysgu oedolion yn y gymuned, addysg gymunedol ac addysg datblygu, yn ogystal â dysgu seiliedig ar waith.

Introduction

The lifelong learning sector and LLUK

LLUK is one of 25 independent, employer-led Sector Skills Councils (SSCs), funded by the Sector Skills Development Agency (SSDA) and licensed by the Secretary of State for Education and Skills, in consultation with ministers in Wales. Together, the 25 SSCs make up the majority of the Skills for Business network (SfBn), the key goals of which are to:

- reduce skills gaps and shortages
- improve productivity, business and public service performance
- increase opportunities to boost skills and productivity
- improve learning supply, including apprenticeships, HE (Higher Education) and National Occupational Standards (NOS).

The lifelong learning sector in Wales brings together all provision that delivers or supports learning and knowledge management for young people over 14 and adults.

LLUK represents five key constituency groups:

- **community learning and development (CLD)** – covering community based learning and community development activity and including development education, youth work, family learning and working with parents
- **further education (FE)** – embracing FE colleges and specialist institutions
- **higher education (HE)** – including universities and colleges of HE
- **libraries, archives and information services (LAIS)**
- **work based learning (WBL)** – relating to provision by private training companies

Further education (FE)

The FE System in Wales brings together all provision (outside but in partnership with schools) for post-14 education, learning and training. This includes that offered through colleges, community based provision, work based learning and increasingly libraries, archives and information services. This includes informal, non-formal and formal learning which supports studying undertaken in all other aspects of the lifelong learning sector and their role in increasing community based access to learning and providing information, advice and guidance services.

The purpose of the FE System in Wales is to support learners throughout their lives, to have the knowledge and skills to enable them to:

- enter employment
- remain in and progress within employment
- be intelligent consumers
- be informed, discerning and contributing individuals, parents and citizens

The FE system includes the 14 – 19 pathways, adult education for those entering or returning to employment, training and development for those in or progressing through employment and learning for personal growth. This also encompasses community based adult learning, community education and development education as well as work based learning.

Gyrwyr polisi allweddol o ran addysg, sgiliau a dysgu gydol oes yng Nghymru

Yn 2005, daeth Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) â rhan fwyaf y gwasanaethau cysylltiol sy'n cefnogi addysg a sgiliau, gan gynnwys cyllid ac arolygu, oddi mewn i'r cynulliad ei hun.

Mae gan *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* (2007) botensial i fod yn un o'r strategaethau mwyaf cynhwysol a phellgyrhaeddol yn Ewrop sy'n cynnwys system cyflenwi sgiliau. Mae'n tynnu gweledigaeth a nodau LICC o ran adeiladu gallu ac ansawdd dysgu gydol oes, o gyfnod cyn-ysgol i brifysgolion, addysg oedolion a, thrwy hynny, sefydliadau cymorth eraill fel llyfrgelloedd, ynghyd mewn un polisi.

Ceir gweledigaeth eglur ar gyfer gwahanol geinciau'r polisi. Ar gyfer y sector dysgu gydol oes – a gynhwysir gan LLUK – mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwella safonau addysg a chyrhaeddiad ym mhob sefyllfa dysgu, gan werthfawrogi a chefnogi ymarferwyr i gyflawni hyn.
- Cryfhau cyfraniad addysg a hyfforddiant at ddatblygiad economaidd. Sicrhau bod dysgu'n rhan ddyddiol o fywyd gwaith a bywyd personol, lle daw buddiannau dysgwyr yn gyntaf.
- Sicrhau bod Cymru yn wlad sy'n dysgu, lle mae dysgu gydol oes uchel ei ansawdd yn darparu'r sgiliau y mae eu hangen ar bobl i ffynnu yn yr economi newydd, yn rhyddhau dawn yn estyn cyfleoedd ac yn grymuso cymunedau.

Mae *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog* (2003) yn tanategu'r holl weithgareddau sy'n cefnogi'r sector dysgu gydol oes ehangach – ac, yn wir, pob maes polisi ledled Cymru. Y dyhead yn hyn o beth yw i holl agweddau ar fywyd yng Nghymru fod yn ddwyieithog ac, yn benodol, i bob dysgwr gael cyfle i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a chael mynediad at wybodaeth yn Gymraeg.

Caiff cyflwyno'r holl bolisiau hyn eu cynnwys hefyd yn *Cynllun Gweithredu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang* (LICC 2005). O blith cenhedloedd y DU, mae Cymru ar flaen y gad o ran hyrwyddo'r angen i adeiladu themâu deuol dinasyddiaeth fyd-eang a datblygiad cynaliadwy ar draws pob agwedd ar ddysgu.

Gan adeiladu ar y *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth*, mae *Strategaeth Sgiliau i Gymru* newydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, y bwriedir ei chyhoeddi yn 2007, a fydd yn cynnwys cyfeiriadau at sut y bydd Cymru yn cyflawni mwy o ffyniant economaidd a chydlyniant cymdeithasol, fel yr amlinellwyd yn Adolygiad Leitch o Sgiliau, ac yn bodloni'r uchelgeisiau ehangach a nodwyd ar draws yr holl bolisiau hyn.

Cyfeirir at y dogfennau polisi a grybwyllir uchod yn y ddogfen hon yn adran y *Gwybodaeth Ychwanegol*, sy'n dilyn y safonau.

Key policy drivers of education, skills and lifelong learning in Wales

In 2005 the Welsh Assembly Government (WAG) brought most of the associated services supporting education and skills, including funding and inspection, within the assembly itself.

The Learning Country: Vision into Action (2007) is potentially one of the most inclusive and far reaching strategies encapsulating a skills supply system in Europe. It brings together in one policy the vision and goals of WAG with respect to building the capacity and quality of learning throughout life, from pre-school to universities, adult education and, by inference, other support such as libraries.

There is a distinct vision for the separate strands of the policy. For the lifelong learning sector – as covered by LLUK – these include:

- Driving up standards of teaching and attainment in all learning settings, valuing and supporting practitioners to achieve this.
- Strengthening the contribution of education and training to economic development. Ensuring learning is an everyday part of working and non-working life, in which the interests of learners come first.
- Ensuring Wales is a learning country, where high quality, lifelong learning provides the skills people need to prosper in the new economy, liberates talent, extends opportunities and empowers communities.

Underpinning all of the activities supporting the wider lifelong learning sector – and indeed all policy across Wales – is *laith Pawb: A National Action Plan for a Bilingual Wales* (2003). The aspiration here is for all aspects of life in Wales to be bilingual and, in particular, for all learners to have the option of learning through the medium of Welsh and accessing information in Welsh.

The delivery of all these policies is also framed by the *Education for Sustainable Development and Global Citizenship Action Plan* (WAG 2005). Wales is at the forefront of the UK nations in promoting the need for building the twin themes of global citizenship and sustainable development across all strands of learning.

Building on the *Skills and Employment Action Plan*, a new *Skills Strategy for Wales* is currently being developed, due out in the autumn of 2007, and will include references to how Wales will achieve greater economic prosperity and social cohesion as outlined in the Leitch Review of Skills, and meet the wider ambitions laid out across all these policies.

The policy documents noted above are referenced in this document in the *Additional Information* section which follows the standards.

Datblygu safonau proffesiynol newydd i athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes yng Nghymru

Ym mis Mawrth, 2007, rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y dasg o adolygu'r Safonau ar gyfer Cefnogi Addysgu a Dysgu yng Nghymru a Lloegr (FENTO) i Dysgu Gydol Oes y DU. Adolygwyd y safonau ar gyfer y cyd-destun yn Lloegr yn 2006, a chyhoeddwyd safonau newydd ym mis Rhagfyr. Er bod yr angen am drosglwyddoldeb trawsffiniol yn ystyriaeth, mae'r adolygiad ar gyfer Cymru wedi bod yn gyfle i ddatblygu safonau i athrawon sy'n adlewyrchu unigrywiaeth y cyd-destun yng Nghymru.

Mewn termau generig, mae'r safonau proffesiynol i athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes yn disgrifio'r sgiliau, y wybodaeth a'r rhinweddau y mae eu hangen ar bobl sy'n cyflawni'r amrywiaeth eang o rolau addysgu a hyfforddi a wneir yn y sector gyda dysgwyr a chyflogwyr. Maent yn rhydd o gyd-destun a lefelau, er mwyn cynrychioli pob etholaeth ac athrawon newydd, athrawon profiadol ac addysgwyr athrawon. Maent yn cynrychioli'r cylch addysgu a dysgu, y mae pob athro yn ymgysylltu ag ef: asesu cychwynnol, cynllunio a pharatoi, gwerthuso a gwella ansawdd trwy ymateb i werthuso.

Estynnwyd y broses ymgynghori i Gymru ym mis Mehefin 2007, a'r safonau a gyflwynir yn y ddogfen hon yw canlyniad y broses hon. Dangosodd digwyddiadau ymgynghori a holiadur ar y we bod cefnogaeth gref i ymagwedd generig y safonau ar gyfer Lloegr, wrth bwysleisio'r angen i'r safonau adlewyrchu anghenion penodol y sector yng Nghymru a chefnogi gweledigaeth *Y Wlad sy'n Dysgu*. Ymdriniwyd â hyn trwy gynnwys safonau sy'n ymwneud yn benodol â dwyieithrwydd, amrywiaeth diwylliannol, datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, gan alluogi drwy hyn i'r safonau fodloni anghenion Cymru a chaniatáu iddynt gyd-fynd â'r safonau ar gyfer Lloegr. Yn hyn o beth, gellir ymdrin ag ystyriaethau traws ffiniol a throsglwyddoldeb, a hefyd diogelu symudedd y farchnad lafur.

Mae datblygu'r safonau yn gam cyntaf hanfodol yn y broses o adeiladu fframwaith newydd o gymwysterau i athrawon yn y system addysg bellach yng Nghymru. Caiff y rhain eu datblygu oddi mewn i Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW) a byddant yn cyd-fynd yn llawn â fframweithiau credyd eraill y DU.

Diffiniadau

Athro – Defnyddiwyd y gair athro fel term generig ar gyfer athrawon, tiwtoriaid, hyfforddwyr, darlithwyr a chyfarwyddwyr yn y Sector Addysg Gydol Oes.

Parth Arbenigedd – Mae hyn yn cynrychioli'r maes proffesiynol, galwedigaethol neu bwnc y cyflogwyd yr unigolyn i'w addysgu.

Dwyieithrwydd – Defnyddir y term generig dwyieithrwydd i adlewyrchu amrywiaeth o sefyllfaoedd addysgu a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, neu addysgu a dysgu Cymraeg fel iaith.

The development of new professional standards for teachers, tutors and trainers in the lifelong learning sector in Wales

In March, 2007, the Welsh Assembly Government tasked Lifelong Learning UK to review the Standards for Teaching and Supporting Learning for Wales and England (FENTO). The standards were reviewed for the England context in 2006, with publication of new standards in December. While mindful of the need for cross border transferability, the review for Wales has presented the opportunity to develop standards for teachers to reflect the uniqueness of the context in Wales.

The professional standards for teachers, tutors and trainers in the lifelong learning sector describe, in generic terms, the skills, knowledge and attributes required of those who perform the wide variety of teaching and training roles undertaken within the sector with learners and employers. They are context free and level free, in order to represent all constituencies and new teachers, experienced teachers and teacher educators. They represent the teaching and learning cycle, with which all teachers engage: initial assessment, planning and preparation, teaching, assessment, evaluation and quality improvement through responding to evaluation.

The consultation process was extended to Wales in June 2007, and this has resulted in the standards presented in this document. Consultation events and a web-based questionnaire showed strong support for the generic approach of the standards for England while stressing the need for the standards to reflect the distinct needs of the sector in Wales and to support the vision of *The Learning Country*. This has been addressed through the inclusion of standards relating specifically to bilingualism, cultural diversity and sustainable development and global citizenship, thus enabling the standards to meet the needs of Wales and allowing articulation with the standards for England. In this way, cross-border issues and transferability can be addressed, and labour market mobility protected.

Development of the standards represents a vital first step in the construction of a new framework of qualifications for teachers in the further education system in Wales. These will be developed within the Credit and Qualifications Framework for Wales (CQFW) and will have full articulation with other UK credit frameworks.

Definitions

Teacher – The word teacher has been used as a generic term for teachers, tutors, trainers, lecturers and instructors in the Lifelong Learning Sector.

Area of Specialism – This represents the professional, vocational or subject area in which the individual has been employed to teach.

Bilingualism – The generic term bilingualism is used to reflect a variety of settings for teaching and learning through the medium of Welsh or the teaching and learning of Welsh as a language.

Cynnwys

<i>Safonau Proffesiynol Trosfwaol</i>	<i>tudalen 1</i>
<i>Parth A: Gwerthoedd proffesiynol ac arfer</i>	<i>tudalen 2</i>
<i>Parth B: Dysgu ac addysgu</i>	<i>tudalen 5</i>
<i>Parth C: Dysgu ac addysgu arbenigol</i>	<i>tudalen 8</i>
<i>Parth D: Cynllunio ar gyfer dysgu</i>	<i>tudalen 10</i>
<i>Parth E: Asesu i ddysgu</i>	<i>tudalen 12</i>
<i>Parth F: Mynediad a chynnydd</i>	<i>tudalen 14</i>
<i>Dogfennau polisi allweddol ar gyfer Cymru sy'n berthnasol i'r safonau</i>	<i>tudalen 16</i>
<i>Gwybodaeth ychwanegol</i>	<i>tudalen 18</i>

Contents

<i>Overarching professional standards</i>	<i>page 1</i>
<i>Domain A: Professional values and practice</i>	<i>page 2</i>
<i>Domain B: Learning and teaching</i>	<i>page 5</i>
<i>Domain C: Specialist learning and teaching</i>	<i>page 8</i>
<i>Domain D: Planning for learning</i>	<i>page 10</i>
<i>Domain E: Assessment for learning</i>	<i>page 12</i>
<i>Domain F: Access and progression</i>	<i>page 14</i>
<i>Key policy documents for Wales relevant to the standards</i>	<i>page 16</i>
<i>Additional information</i>	<i>page 18</i>

Safonau proffesiynol newydd i athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes yng Nghymru

Mae athrawon yn y sector dysgu gydol oes yn gwerthfawrogi pob dysgwr yn unigol ac yn gyfartal. Maent wedi ymrwymo i ddysgu gydol oes a datblygiad proffesiynol, ac yn ymdrechu i wella'n barhaus trwy arfer myfyriol. Prif ddiben yr athro yw creu cyfleoedd effeithiol a symbylol i ddysgu trwy addysgu uchel ei ansawdd sy'n caniatáu i bob dysgwr ddatblygu a gwneud cynnydd.

Dyma'r safonau proffesiynol trosfwaol i bawb sy'n addysgu yn y sector dysgu gydol oes.

Parth A Gwerthoedd proffesiynol ac arfer

Parth B Dysgu ac addysgu

Parth C Dysgu ac addysgu arbenigol

Parth D Cynllunio ar gyfer dysgu

Parth E Asesu i ddysgu

Parth F Mynediad a chynnydd

Nodyn:

- *C = Cwmpas; G = Gwybodaeth; A = Arfer*
- At ddibenion y ddogfen hon, mae'r term generig athro, yn cyfeirio at athrawon, tiwtoriaid, hyfforddwyr, darlithwyr a chyfarwyddwyr.
- At ddibenion y ddogfen hon, mae'r term 'maes arbenigedd' yn cynrychioli'r maes proffesiynol, galwedigaethol neu bwnc y cyflogwyd yr unigolyn i'w addysgu.
- At ddibenion y ddogfen hon, defnyddir y term generig 'dwyieithrwydd' i adlewyrchu amrywiaeth o sefyllfaoedd addysgu a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, neu addysgu a dysgu Cymraeg fel iaith.
- Mae'r rhifau mewn cromfachau yn dilyn safonau unigol yn cyfeirio at Ddogfennau Polisi Allweddol a restrir yn adran olaf y ddogfen hon.

New professional standards for teachers, tutors and trainers in the lifelong learning sector in Wales

Teachers in the lifelong learning sector value all learners individually and equally. They are committed to lifelong learning and professional development and strive for continuous improvement through reflective practice. The key purpose of the teacher is to create effective and stimulating opportunities for learning through high quality teaching that enables the development and progression of all learners.

These are the overarching professional standards for all those who teach in the lifelong learning sector.

Domain A Professional values and practice

Domain B Learning and teaching

Domain C Specialist learning and teaching

Domain D Planning for learning

Domain E Assessment for learning

Domain F Access and progression

Note:

- *S = Scope; K = Knowledge; P = Practice*
- For the purposes of this document, the generic term ‘teacher’ refers to teachers, tutors, trainers, lecturers and instructors.
- For the purposes of this document the term ‘area of specialism’ represents the professional, vocational or subject area in which the individual has been employed to teach.
- For the purposes of this document, the generic term ‘bilingualism’ is used to reflect a variety of settings for teaching and learning through the medium of Welsh or the teaching and learning of Welsh as a language.
- The numbers in brackets following individual standards refer to Key Policy Documents listed in the final section of this document.

Parth A: Gwerthoedd proffesiynol ac arfer

Tanategir yr arfer o addysgu gan gyfres o werthoedd proffesiynol y dylai pob athro, tiwtor a hyfforddwr gadw atynt ym mhob sefyllfa. Mae'r parth hwn yn nodi'r safonau ar gyfer y gwerthoedd hyn a'u hymrwymiaidau cysylltiol.

GWERTHOEDD PROFFESIYNOL	
<i>Mae athrawon yn y sector dysgu gydol oes yn gwerthfawrogi:</i>	
AC 1	Dysgwyr, eu cynnydd a'u datblygiad, eu nodau a'u dyheadau o ran dysgu a'r profiad y byddant yn dod ag ef i'w dysgu.
AC 2	Dysgu, ei botensial i fod o fudd i bobl yn emosiynol, yn ddeallusol, yn gymdeithasol ac yn economaidd, a'i gyfraniad at ddatblygiad cynaliadwy mewn cyd-destun cymunedol a byd-eang.
AC 3	Cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiad a dwyieithrwydd mewn perthynas â dysgwyr, y gweithlu, a'r gymuned.
AC 4	Myfyrion ynghylch eu harferion eu hunain a'u datblygiad proffesiynol parhaus fel athrawon, a gwerthuso hynny.
AC 5	Cydweithio ag unigolion, grwpiau a/neu sefydliadau eraill a chanddynt ddiddordeb dilys yng nghynnydd a datblygiad dysgwyr.
Maent wedi ymrwymo i:	
AC 6	Weithredu codau ymarfer y cytunwyd arnynt a chynnal amgylchedd diogel.
AC 7	Gwella ansawdd eu harfer.

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH BROFFESIYNOL	ARFER PROFFESIYNOL
<i>Mae athrawon yn y sector dysgu gydol oes yn gwybod ac yn deall:</i>	<i>Mae athrawon yn y sector dysgu gydol oes:</i>
AG 1.1 Yr hyn sy'n symbylu dysgwyr i ddysgu a phwysigrwydd profiad a dyheadau dysgwyr.	AA 1.1 Yn annog datblygiad a chynnydd pob dysgwr trwy gydnabod, gwerthfawrogi ac ymateb i symbyliad, profiad a dyheadau unigolion.
AG 2.1 Y modd y mae gan ddysgu'r potensial i newid bywydau.	AA 2.1 Yn defnyddio cyfleoedd i amlygu potensial dysgu i drawsnewid bywydau er gwell a chyfrannu at ddinasyddiaeth effeithiol. (1)
AG 2.2 Y modd y mae dysgu yn hyrwyddo lles emosiynol, deallusol, cymdeithasol ac economaidd unigolion a'r boblogaeth gyfan.	AA 2.2 Yn annog dysgwyr i gydnabod ffyrdd y gall dysgu eu grymuso fel unigolion a gwneud gwahaniaeth yn eu cymunedau, ac i fyfyrion ynghl?n â hynny.
AG 2.3 Y modd y mae pobl, yr amgylchedd a'r economi wedi'u cysylltu'n annatod ar bob lefel o'r lleol i'r byd-eang (1).	AA 2.3 Yn hyrwyddo cysyniadau datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yng nghyd-destun dysgu gydol oes (1).

Domain A: Professional values and practice

The practice of teaching is underpinned by a set of professional values that should be observed by all teachers, tutors and trainers in all settings. This domain sets the standards for these values and their associated commitments.

PROFESSIONAL VALUES	
Teachers in the lifelong learning sector value:	
AS 1	Learners, their progress and development, their learning goals and aspirations and the experience they bring to their learning.
AS 2	Learning, its potential to benefit people emotionally, intellectually, socially and economically, and its contribution to sustainable development in a community and global context.
AS 3	Equality, diversity, inclusion and bilingualism in relation to learners, the workforce, and the community.
AS 4	Reflection and evaluation of their own practice and their continuing professional development as teachers.
AS 5	Collaboration with other individuals, groups and/or organisations with a legitimate interest in the progress and development of learners.
They are committed to:	
AS 6	The application of agreed codes of practice and the maintenance of a safe environment.
AS 7	Improving the quality of their practice.

PROFESSIONAL KNOWLEDGE AND UNDERSTANDING	PROFESSIONAL PRACTICE
Teachers in the lifelong learning sector know and understand:	Teachers in the lifelong learning sector:
AK 1.1 What motivates learners to learn and the importance of learners' experience and aspirations.	AP 1.1 Encourage the development and progression of all learners through recognising, valuing and responding to individual motivation, experience and aspirations.
AK 2.1 Ways in which learning has the potential to change lives.	AP 2.1 Use opportunities to highlight the potential for learning to positively transform lives and contribute to effective citizenship (1).
AK 2.2 Ways in which learning promotes the emotional, intellectual, social and economic well being of individuals and the population as a whole.	AP 2.2 Encourage learners to recognise and reflect on ways in which learning can empower them as individuals and make a difference in their communities.
AK 2.3 Ways in which people, the environment and the economy are inextricably linked at all levels from local to global (1).	AP 2.3 Promote the concepts of sustainable development and global citizenship in the context of lifelong learning (1).

Parth A: Gwerthoedd proffesiynol ac arfer *continued*

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH BROFFESIYNOL	ARFER PROFFESIYNOL
<i>Mae athrawon yn y sector dysgu gydol oes yn gwybod ac yn deall:</i>	<i>Mae athrawon yn y sector dysgu gydol oes:</i>
<p>AG 3.1 Ystyriaethau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad.</p> <p>AG 3.2 Dulliau o hyrwyddo dwyieithrwydd (4, 5).</p> <p>AG 3.3 Dulliau y gall dysgwyr ymgysylltu ag ystod o astudiaethau sy'n ymwneud â Chymru gyfoes, y DU, Ewrop a'r byd (6, 10).</p>	<p>AA 3.1 Yn gwerthuso ac yn datblygu eu harferion eu hunain o ran hyrwyddo cydraddoldeb a dysgu cynhwysol, ac ymgysylltu ag amrywiaeth.</p> <p>AA 3.2 Yn defnyddio cyfleoedd i hyrwyddo dwyieithrwydd yn yr amgylchedd dysgu (4, 5).</p> <p>AA 3.3 Yn annog dysgwyr i fyfrio ynghylch safbwyntiau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a thechnolegol, treftadaeth a diwylliannol (6, 10).</p>
<p>AG 4.1 Egwyddorion, fframweithiau a damcaniaethau sy'n tanategu arfer da o ran dysgu ac addysgu.</p> <p>AG 4.2 Effaith eu harferion eu hunain ar unigolion a'u dysgu.</p> <p>AG 4.3 Dulliau o fyfrio, gwerthuso, a defnyddio ymchwil i ddatblygu eu harferion eu hunain, ac i rannu arfer da gydag eraill.</p>	<p>AA 4.1 Yn defnyddio damcaniaethau dysgu perthnasol i gefnogi datblygu arfer mewn dysgu ac addysgu.</p> <p>AA 4.2 Yn myfrio ynghylch gwella eu sgiliau personol ac addysgu eu hunain trwy werthuso rheolaidd a'r defnydd o adborth, ac yn ymrwymo i hynny.</p> <p>AA 4.3 Yn rhannu arfer da ag eraill ac yn ymgysylltu â datblygiad proffesiynol parhaus trwy fyfrio, gwerthuso a defnyddio ymchwil yn briodol.</p>
<p>AG 5.1 Dulliau o gyfathrebu a chydweithio â chydweithwyr a/neu eraill i wella profiad y dysgwr.</p> <p>AG 5.2 Yr angen am gyfrinachedd, parch ac ymddiriedaeth wrth gyfathrebu ag eraill am ddysgwyr.</p>	<p>AA 5.1 Yn cyfathrebu ac yn cydweithredu â chydweithwyr a/neu eraill, o fewn a'r tu allan i'r sefydliad, i wella profiad dysgwyr.</p> <p>AA 5.2 Yn cyfathrebu gwybodaeth ac adborth am ddysgwyr i eraill a chanddynt ddiddordeb dilys, yn briodol ac mewn dull sy'n annog ymddiriedaeth rhwng y sawl sy'n cyfathrebu ac sy'n parchu cyfrinachedd lle bo modd.</p>
<p>AG 6.1 Gofynion statudol a chodau ymarfer perthnasol.</p> <p>AG 6.2 Dulliau o gymhwyso gofynion statudol perthnasol a'r egwyddorion tanategol.</p>	<p>AA 6.1 Yn cydymffurfio â gofynion statudol ac yn cymhwyso codau ymarfer.</p> <p>AA 6.2 Yn dangos arfer da trwy gynnal amgylchedd dysgu sy'n cydymffurfio â gofynion statudol ac sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol i anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion diamddiffyn.</p>

Domain A: Professional values and practice *continued*

PROFESSIONAL KNOWLEDGE AND UNDERSTANDING	PROFESSIONAL PRACTICE
<i>Teachers in the lifelong learning sector know and understand:</i>	<i>Teachers in the lifelong learning sector:</i>
<p>AK 3.1 Issues of equality, diversity and inclusion.</p> <p>AK 3.2 Ways to promote bilingualism (4, 5).</p> <p>AK 3.3 Ways in which learners can engage in a range of studies relating to contemporary Wales, the UK, Europe and the world (6, 10).</p>	<p>AP 3.1 Evaluate and develop own practice in promoting equality and inclusive learning and engaging with diversity.</p> <p>AP 3.2 Use opportunities to promote bilingualism in the learning environment (4, 5).</p> <p>AP 3.3 Encourage learners to reflect on political, social, economic and technological, heritage and cultural perspectives (6, 10).</p>
<p>AK 4.1 Principles, frameworks and theories which underpin good practice in learning and teaching.</p> <p>AK 4.2 The impact of own practice on individuals and their learning.</p> <p>AK 4.3 Ways to reflect, evaluate and use research to develop own practice, and to share good practice with others.</p>	<p>AP 4.1 Use relevant theories of learning to support the development of practice in learning and teaching.</p> <p>AP 4.2 Reflect on and demonstrate commitment to improvement of own personal and teaching skills through regular evaluation and use of feedback.</p> <p>AP 4.3 Share good practice with others and engage in continuing professional development through reflection, evaluation and the appropriate use of research.</p>
<p>AK 5.1 Ways to communicate and collaborate with colleagues and/or others to enhance learners' experience.</p> <p>AK 5.2 The need for confidentiality, respect and trust in communicating with others about learners.</p>	<p>AP 5.1 Communicate and collaborate with colleagues and/or others, within and outside the organisation, to enhance learners' experience.</p> <p>AP 5.2 Communicate information and feedback about learners to others with a legitimate interest, appropriately and in a manner which encourages trust between those communicating and respects confidentiality where necessary.</p>
<p>AK 6.1 Relevant statutory requirements and codes of practice.</p> <p>AK 6.2 Ways to apply relevant statutory requirements and the underpinning principles.</p>	<p>AP 6.1 Conform to statutory requirements and apply codes of practice.</p> <p>AP 6.2 Demonstrate good practice through maintaining a learning environment which conforms to statutory requirements and promotes equality, including appropriate consideration of the needs of children, young people and vulnerable adults.</p>

Parth A: Gwerthoedd proffesiynol ac arfer *continued*

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH BROFFESIYNOL	ARFER PROFFESIYNOL
<i>Mae athrawon yn y sector dysgu gydol oes yn gwybod ac yn deall:</i>	<i>Mae athrawon yn y sector dysgu gydol oes:</i>
AG 7.1 Systemau a phrosesau trefniadaethol ar gyfer cofnodi gwybodaeth am ddysgwyr.	AA 7.1 Yn cadw cofnodion cywir sy'n cyfrannu at weithdrefnau trefniadaethol.
AG 7.2 Eu rolau eu hunain yn y cylch ansawdd.	AA 7.2 Yn gwerthuso eu cyfraniadau eu hunain at gylch ansawdd y sefydliad.
AG 7.3 Dulliau o weithredu gwelliannau ar sail adborth a geir.	AA 7.3 Yn defnyddio adborth i ddatblygu eu harferion eu hunain oddi mewn i systemau'r sefydliad.

Domain A: Professional values and practice *continued*

PROFESSIONAL KNOWLEDGE AND UNDERSTANDING	PROFESSIONAL PRACTICE
<i>Teachers in the lifelong learning sector know and understand:</i>	<i>Teachers in the lifelong learning sector:</i>
AK 7.1 Organisational systems and processes for recording learner information.	AP 7.1 Keep accurate records which contribute to organisational procedures.
AK 7.2 Own role in the quality cycle.	AP 7.2 Evaluate own contribution to the organisation's quality cycle.
AK 7.3 Ways to implement improvements based on feedback received.	AP 7.3 Use feedback to develop own practice within the organisation's systems.

Parth B: Dysgu ac addysgu

Mae'r gwerthoedd a nodir ym Mharth A yn cefnogi ac yn llywio'r holl ymrwymïadau, gwybodaeth ac arferion a nodir mewn parthau eraill.

GWERTHOEDD PROFFESIYNOL	
Mae athrawon yn y sector dysgu gydol oes yn gwerthfawrogi:	
AC 1	Dysgwyr, eu cynnydd a'u datblygiad, eu nodau a'u dyheadau o ran dysgu a'r profiad y byddant yn dod ag ef i'w dysgu.
AC 2	Dysgu, ei botensial i fod o fudd i bobl yn emosiynol, yn ddeallusol, yn gymdeithasol ac yn economaidd, a'i gyfraniad at ddatblygiad cynaliadwy mewn cyd-destun cymunedol a byd-eang.
AC 3	Cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiad a dwyieithrwydd mewn perthynas â dysgwyr, y gweithlu, a'r gymuned.
AC 4	Myfyrïo ynghylch eu harferion eu hunain a'u datblygiad proffesiynol parhaus fel athrawon, a gwerthuso hynny.
AC 5	Cydweithio ag unigolion, grwpiau a/neu sefydliadau eraill a chanddynt ddiddordeb dilys yng nghynnydd a datblygiad dysgwyr.
Maent wedi ymrwymo i:	
BC 1	Gynnal amgylchedd dysgu cynhwysol, cyfiawn, symbylol a, lle bo'n briodol, dwyieithog
BC 2	Cymhwyso a datblygu eu sgiliau proffesiynol eu hunain i ganiatáu i ddysgwyr gyflawni eu nodau.
BC 3	Cyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol â dysgwyr i wella dysgu.
BC 4	Cydweithio â chydweithwyr i gefnogi anghenion dysgwyr.
BC 5	Defnyddio ystod o adnoddau dysgu i gefnogi dysgwyr.

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH BROFFESIYNOL	ARFER PROFFESIYNOL
Mae athrawon yn y sector dysgu gydol oes yn gwybod ac yn deall:	Mae athrawon yn y sector dysgu gydol oes:
BG 1.1 Dulliau o gynnal amgylchedd dysgu lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u cefnogi.	BA 1.1 Yn sefydlu amgylchedd dysgu pwrpasol lle bydd dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn sicr, yn hyderus ac wedi'u gwerthfawrogi.
BG 1.2 Dulliau o ddatblygu a rheoli ymddygiad sy'n hyrwyddo parch ar gyfer eraill, a rhwng eraill, ac sy'n creu amgylchedd dysgu cyfartal a chynhwysol.	BA 1.2 Yn sefydlu ac yn cynnal gweithdrefnau gyda dysgwyr sy'n hyrwyddo ac yn cynnal ymddygiad priodol, cyfathrebu a pharch at eraill, wrth herio ymddygiad ac agweddau gwahaniaethol.
BG 1.3 Dulliau o greu amgylchedd dysgu symbylol.	BA 1.3 Yn creu amgylchedd symbylol sy'n annog dysgwyr i fyfyrïo ynglŷn â'u dysgu, i'w werthuso a gwneud penderfyniadau yn ei gylch.

Domain B: Learning and teaching

The values set out in Domain A support and inform all the commitments, knowledge and practice set out in the other domains.

PROFESSIONAL VALUES	
Teachers in the lifelong learning sector value:	
AS 1	Learners, their progress and development, their learning goals and aspirations and the experience they bring to their learning.
AS 2	Learning, its potential to benefit people emotionally, intellectually, socially and economically, and its contribution to sustainable development in a community and global context.
AS 3	Equality, diversity, inclusion and bilingualism in relation to learners, the workforce, and the community.
AS 4	Reflection and evaluation of their own practice and their continuing professional development as teachers.
AS 5	Collaboration with other individuals, groups and/or organisations with a legitimate interest in the progress and development of learners.
They are committed to:	
BS 1	Maintaining an inclusive, equitable, motivating and, where appropriate, bilingual learning environment.
BS 2	Applying and developing own professional skills to enable learners to achieve their goals.
BS 3	Communicating effectively and appropriately with learners to enhance learning.
BS 4	Collaboration with colleagues to support the needs of learners.
BS 5	Using a range of learning resources to support learners.

PROFESSIONAL KNOWLEDGE AND UNDERSTANDING	PROFESSIONAL PRACTICE
Teachers in the lifelong learning sector know and understand:	Teachers in the lifelong learning sector:
BK 1.1 Ways to maintain a learning environment in which learners feel safe and supported.	BP 1.1 Establish a purposeful learning environment where learners feel safe, secure, confident and valued.
BK 1.2 Ways to develop and manage behaviours which promote respect for and between others and create an equitable and inclusive learning environment.	BP 1.2 Establish and maintain procedures with learners which promote and maintain appropriate behaviour, communication and respect for others, while challenging discriminatory behaviour and attitudes.
BK 1.3 Ways of creating a motivating learning environment.	BP 1.3 Create a motivating environment which encourages learners to reflect on, evaluate and make decisions about their learning.

Parth B: Dysgu ac addysgu *continued*

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH BROFFESIYNOL	ARFER PROFFESIYNOL
<i>Mae athrawon yn y sector dysgu gydol oes yn gwybod ac yn deall:</i>	<i>Mae athrawon yn y sector dysgu gydol oes:</i>
BG 1.4 Dulliau o hyrwyddo a datblygu amgylchedd dysgu dwyieithog (4).	BA 1.4 Yn hyrwyddo ac yn datblygu amgylchedd dysgu dwyieithog sy'n briodol i'r dysgwyr (4).
BG 2.1 Egwyddorion dysgu, gan gynnwys dysgu dwyieithog, lle bo'n briodol, a ffyrdd o ddarparu gweithgareddau dysgu i fodloni gofynion y cwricwlwm ac anghenion sgiliau pob dysgwr (4).	BA 2.1 Yn cynnig gweithgareddau dysgu, gan gynnwys gweithgareddau dysgu dwyieithog, lle bo'n briodol, sy'n bodloni gofynion y cwricwlwm ac anghenion sgiliau pob dysgwr (4).
BG 2.2 Dulliau o ymgysylltu, symbylu ac annog cyfranogiad gweithredol dysgwyr ac annibyniaeth dysgwyr.	BA 2.2 Yn defnyddio ystod o dechnegau addysgu a dysgu effeithiol a phriodol i ymgysylltu â dysgwyr, eu symbylu, ac annog annibyniaeth.
BG 2.3 Perthnasedd ymagweddau dysgu a dewisiadau o ran cynnydd dysgwyr.	BA 2.3 Yn gweithredu gweithgareddau dysgu sy'n cydnabod ymagweddau dysgwyr at ddysgu ac yn hyrwyddo ymreolaeth dysgwyr.
BG 2.4 Ymagweddau hyblyg at addysgu a dysgu.	BA 2.4 Yn cymhwyso ymagweddau hyblyg at addysg a dysgu, gan gynnwys hyrwyddo technolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, fel y bo'n briodol.
BG 2.5 Dulliau o ddefnyddio profiadau'r dysgwyr eu hunain, a phrofiadau eu cyfoedion, fel sylfaen ar gyfer dysgu.	BA 2.5 Yn annog dysgwyr i ddefnyddio eu profiadau eu hunain o fywyd a phrofiadau eu cyfoedion yn sylfaen i'w datblygiad.
BG 2.6 Dulliau o werthuso eu harfer eu hunain o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.	BA 2.6 Yn gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd eu haddysgu eu hunain, gan gynnwys ystyried adborth dysgwyr a damcaniaethau dysgu.
BG 2.7 Dulliau y gall mentora a/neu hyfforddi gefnogi datblygu sgiliau a gwybodaeth broffesiynol.	BA 2.7 Yn defnyddio mentora a/neu hyfforddi i gefnogi eu datblygiad personol eu hunain a datblygiad personol pobl eraill, fel y bo'n briodol.
BG 3.1 Sut i ddefnyddio gwahanol ddulliau o gyfathrebu effeithiol a phriodol a lywir gan ddamcaniaethau ac egwyddorion perthnasol.	BA 3.1 Cyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol, gan ddefnyddio mathau gwahanol o iaith a chyfryngau, gan gynnwys cyfathrebu'n ysgrifenedig, ar lafar a heb eiriau, a thechnolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg i wella dysgu.
BG 3.2 Ystod o dechnegau gwrando a holi i gefnogi dysgu.	BA 3.2 Yn defnyddio technegau gwrando a holi yn briodol ac yn effeithiol mewn ystod o gyd-destunau dysgu.

Domain B: Learning and teaching *continued*

PROFESSIONAL KNOWLEDGE AND UNDERSTANDING	PROFESSIONAL PRACTICE
<i>Teachers in the lifelong learning sector know and understand:</i>	<i>Teachers in the lifelong learning sector:</i>
BK 1.4 Ways of promoting and developing a bilingual learning environment (4).	BP 1.4 Promote and develop a bilingual learning environment appropriate to the learners (4).
<p>BK 2.1 Principles of learning, including bilingual learning, where appropriate, and ways to provide learning activities to meet curriculum requirements and the skills needs of all learners (4).</p> <p>BK 2.2 Ways to engage, motivate and encourage active participation of learners and learner independence.</p> <p>BK 2.3 The relevance of learning approaches and preferences to learner progress.</p> <p>BK 2.4 Flexible approaches to teaching and learning.</p> <p>BK 2.5 Ways of using learners' own experiences, and the experiences of their peers, as a foundation for learning.</p> <p>BK 2.6 Ways to evaluate own practice in terms of efficiency and effectiveness.</p> <p>BK 2.7 Ways in which mentoring and/or coaching can support the development of professional skills and knowledge.</p>	<p>BP 2.1 Provide learning activities, including bilingual learning activities, where appropriate, which meet curriculum requirements and the skills needs of all learners (4).</p> <p>BP 2.2 Use a range of effective and appropriate teaching and learning techniques to engage and motivate learners and encourage independence.</p> <p>BP 2.3 Implement learning activities which recognise and develop the learning approaches of learners and promote learner autonomy.</p> <p>BP 2.4 Apply flexible approaches to teaching and learning, including the promotion of new and emerging technologies, as appropriate.</p> <p>BP 2.5 Encourage learners to use their own life experiences and the experiences of their peers as a foundation for their development.</p> <p>BP 2.6 Evaluate the efficiency and effectiveness of own teaching, including consideration of learner feedback and learning theories.</p> <p>BP 2.7 Use mentoring and/or coaching to support own and others' professional development, as appropriate.</p>
<p>BK 3.1 Effective and appropriate use of different forms of communication informed by relevant theories and principles.</p> <p>BK 3.2 A range of listening and questioning techniques to support learning.</p>	<p>BP 3.1 Communicate effectively and appropriately using different forms of language and media, including written, oral and non-verbal communication, and new and emerging technologies to enhance learning.</p> <p>BP 3.2 Use listening and questioning techniques appropriately and effectively in a range of learning contexts.</p>

Parth B: Dysgu ac addysgu *continued*

GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH BROFFESIYNOL	ARFER PROFFESIYNOL
<i>Mae athrawon yn y sector dysgu gydol oes yn gwybod ac yn deall:</i>	<i>Mae athrawon yn y sector dysgu gydol oes:</i>
BG 3.3 Dulliau o strwythuro a chyflwyno gwybodaeth a syniadau i ddysgwyr yn eglur ac yn effeithiol.	BA 3.3 Yn strwythuro ac yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur ac yn effeithiol.
